OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 277 (Cy. 53)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018

*Gwnaed - - - - 27 Chwefror 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 7 Mawrth 2018*

*Yn dod i rym - - 19 Ebrill 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, dehongli, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**3**).

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Ebrill 2018.

(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn gymwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, pa un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan Reoliadau 2017 ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257 a Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76 ac O.S. 2013/1881. *Gwele*r adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), gydag is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169).

**Diwygio Rheoliadau 2017**

**2.** Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Yn rheoliad 4 (cyrsiau dynodedig), yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) At ddiben paragraff (1)(a) rhaid i'r cwrs fod yn un o'r canlynol—

(a) cwrs llawnamser sy'n para un flwyddyn academaidd neu ddwy flynedd academaidd; neu

(b) cwrs rhan-amser y mae fel arfer yn bosibl ei gwblhau mewn cyfnod o hyd at bedair blynedd academaidd."

**4.** Yn rheoliad 12 (swm benthyciad at radd feistr ôl-raddedig), yn y ddau le y mae'n digwydd, yn lle "£10,280" rhodder "£13,000".

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

27 Chwefror 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n darparu ar gyfer gwneud benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n ymgymryd â chyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2017.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r cyfnod hwyaf y caniateir i gwrs rhan-amser bara er mwyn gallu cael ei ddynodi at ddibenion Rheoliadau 2017.

Mae rheoliad 4 yn cynyddu swm y benthyciad sydd ar gael.

Nid yw'r diwygiadau ond yn gymwys i'r ddarpariaeth o fenthyciadau mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.